

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 25 Mehefin 23, 2022 50c.

Alltudio i Rwanda

Gwarth llwyr yw polisi presennol llywodraeth San Steffan i alltudio ymgeiswyr lloches 4, 000 o filltiroedd i ffwrdd i Rwanda i gael eu 'prosesu' ar ein rhan ni, y Deyrnas Gyfunol. Fe ymddengys fod synnwyr cyffredin a dyngarwch sylfaenol yn beth dieithr iawn ymhlith rhai o'r arweinyddion gwleidyddol erbyn hyn. Ar nos Lun 13/6 gohiriwyd yr hediad cyntaf oedd fod i gario 8 person i Rwanda oherwydd apelïadau cyfreithiol gan y Llys Iawnderau Dynol Ewropeaidd a gwrthwynebiad cynyddol i'r polisi gan unigolion a sefydliadau. A da o beth hynny, oherwydd nid dyma yw'r ffordd i drin yr anghenus a ddaw i'n plith.

Y gwir yw nad yw gwledydd Prydain yn barod i ysgwyddo eu cyfrifoldebau tuag at ffoaduriaid fel un o economïau cyfoethocaf y byd. Yn y Lebanon mae chwarter y boblogaeth yn ffoaduriaid. Yn Nhwrci y mae 5% ac yn Liberia y mae 4%. Yma yn y DG dim ond 0.26% o'r boblogaeth sy'n ffoaduriaid ac ymgeiswyr lloches. Yn ôl cyfreithiau rhyngwladol y mae gan ymgeisydd lloches hawl i geisio lloches o fewn i diriogaeth o'i ddewis ei hun.

Sefyllfa druenus

Fe ymddengys fod caredigrwydd tuag at gyd-ddyn sydd mewn angen ac ofn wedi mynd yn brin. Mae'r llywodraeth hon ar dir peryglus iawn erbyn hyn lle y credant fod ganddynt hawl i fathru ar gyfreithiau a chytundeb rhyngwladol a hynny er budd iddynt hwy eu hunain. Mae'n anodd deall fel Cristnogion yr atgasedd sydd gan rai tuag at y bobl anghenus hyn. Dod yma y mae'r mwyafrif helaethaf ohonynt oherwydd eu bod yn wynebu, trais, rhyfel, erledigaeth neu newyn yn eu gwledydd eu hunain. Dylai fod gennym brosesau syml ac effeithiol wedi eu gosod yn eu lle er mwyn delio gyda'r bobl hyn yn wareiddiedig a meddylgar.

Egwyddorion

Fel Cristnogion rydym yn sylweddoli nad yw'r polisi hwn yn ddigon da nac yn unol ag egwyddorion ein ffydd. Yn Eiseia 58: 6-7 fe ddywedir wrthym, i 'gael gwared â chadwyni anghyfiawnder, datod rhaffau'r iau a gollwng y rhai sy'n cael eu gormesu yn rhydd ... Rhannu dy fwyd gyda'r newynog, rhoi lle i fyw i'r rhai tlawd sy'n ddigartref a rhoi dillad i rywun rwynt yn ei weld yn noeth; peidio ceisio osgoi gofalu am dy deulu.' Dyma yw rhai o egwyddorion Teyrnas Dduw, nid dangos amarch tuag at ddieithriad a ddaw i'n plith. Ein cyfrifoldeb ni yw gofalu amdanynt, nid cyfrifoldeb Rwanda.

Hoffem eich annog i anfon e-bost at eich aelod seneddol lleol yn mynegi eich anniddigrwydd a'ch tristwch am y polisi annynol hwn gan ofyn iddynt fynegi hyn wrth y llywodraeth. Gallwch ganfod manylion cyswllt eich aelod seneddol ar y wefan hon:

<https://members.parliament.uk/FindYourMP> (Gol.)



Croesawu Dewi i fro Hywel!

Braint oedd cael croesawu'r Parchg Dewi Myrddin Hughes, Clydach, i fro Hywel Dda yn ddiweddar. Yr achlysur oedd cyrddau blynyddol y Tabernacl, Hendy-gwyn. Yn y bore cafwyd pregeth ardderchog ar y thema – tair gweddi – tair gweddi sydd yn cwmpasu'r Efengyl i gyd.

Y cyntaf oedd gweddi'r Salmydd ar ddechrau Salm 42, 'Fel y dyhea ewig am ddyfroedd ehedegog.'

Yn ail gweddi Agur ym mhenod 30 o Lyfr y Diarhebion lle mae Agur yn gweddïo am ddaau beth cyn marw sef yn gyntaf i Dduw, 'symud gwagedd a chelwydd ymhell oddi wrthyf.' Ac yn ail, 'paid â rhoi imi dlodi na chyfoeth.'

A'r drydedd weddi oedd geiriau Iesu ar y groes, 'Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?' (Mathew 27, 46)

Yn y prynhawn cafwyd oedfa deulu ar hanes Lydia yn Actau'r Apostolion – y person cyntaf o Ewrop i ddod yn Gristion.

Diolch i Dewi ac i bawb wnaeth cymryd rhan yn y prynhawn. A diolch i Annette am y llun ac am ddal pawb yn gwenu'r un pryd!



Guto Llywelyn

Y Golofn Ryngwladol

Pleser, yn aml, yw cael adfer cysylltiad â phobl na fu i ni fod yn eu cwmni ers blynyddoedd, a chofio'r dyddiau a fu, ein hanes cyffredin. Dyna'n union sydd yn digwydd yn ein Colofn Ryngwladol y tro hwn; nid wyf wedi gweld, na sgwrsio gydag Arfon Williams ers dros ddeugain mlynedd, ac eto, pan gysylltais ag ef, cytunodd ar unwaith i ysgrifennu gair ar gyfer *Y Tyst*.

Prin fod angen i mi ei gyflwyno gan fod yn cyflwyno'i hunan, ond diddorol yw darllen hanes un sydd ynglŷn â gwaith y Deyrnas nid yn unig mewn gwlad arall ond mewn traddodiad arall. Diolchwn i Arfon am ei neges a dymunwn fendith Duw arno yn y gwaith.

Geraint Tudur

Gair o Weriniaeth Iwerddon

Pleser o'r mwyaf yw gallu anfon gair at ddarllenwyr *Y Tyst* o Sligo ar arfordir gorllewinol Gweriniaeth Iwerddon. Fy enw yw Arfon Williams, yn enedigol o Fodffordd yn Ynys Môn, ond ers bron i ddeunaw mlynedd bellach yn ddeon eglwys gadeiriol St Ioan yn esgobaeth Elphin. Ym 1975 roeddwn yn fyfyrwr yng Ngholeg Bala-Bangor (er nid yn Annibynnwr, er gwaethaf anogaeth fy nain) a melys iawn yw'r atgofion o'r saithdegau ym Mangor a helyntion yr iaith, traddodiad a Christnogaeth yn berwi yn ein calonnau.

Rwyf wedi symud i sawl lle yn ystod fy ngyrfa o f'ordinasiwn yn Nhyddewi; curad yng Nghaerfyrddin, ficer yn Aberystwyth a Bethesda ger Bangor, yna symud i swydd yn Sussex cyn cyfnod yng Ngogledd Iwerddon. Roeddwn yn archddiacon Meirionnydd am gyfnod cyn dod yma i Sligo.



Arfon Williams gyda Michael D. Higgins, Arlywydd Iwerddon



Eglwys Gadeiriol Sligo

Y Weriniaeth

Porthladd yw Sligo ac o'r herwydd yn dref fasnach a safle milwrol dan Frenhiniaeth Prydain cyn i'r Weriniaeth gael ei sefydlu gan mlynedd yn ôl. Mae Eglwys St Ioan yn mynd yn ôl i 1730, ac mae darn o ddyddiadur John Wesley yn dweud iddo fod mewn gwasanaeth yma, er nad oedd yn or-hoff o'r profiad! Beth bynnag am hynny, mae gennym frawdoliaeth iach gyda'r Methodistiaid a phob enwad arall hefyd dan Eglwys Cytûn Sligo.

Fel Protestaniaid yr ydym, wrth gwrs, yn y lleiafrif yng Ngweriniaeth Iwerddon, ond ers y datgysylltu ym 1870 mae'r Eglwys yn yr Iwerddon (Anglicanaidd) wedi cadw presenoldeb drwy'r Iwerddon gyfan, er bod addolwyr yn brin iawn mewn rhai ardaloedd, yn enwedig yn y de-orllewin. Mae problemau pob enwad yn debyg iawn, er efallai ddim mor foel â phroblemau eglwys mewn sawl rhan o Gymru.

Mae gweinidogaeth mewn ardal fel Sligo yn debyg iawn i fod mewn un o drefi arfordirol Cymru sydd wedi gweld dyddiau mwy llwyddiannus, ac mae dwy flynedd pandemig Covid-19, fel acw, wedi trywanu bywyd ysbrydol a chymdeithasol ein heglwys.

Effaith Covid

Mae rhai eglwys a oedd yn wan cyn Covid bellach ar y cledrau ac eraill yn amau y bydd ailafael yn yr hyn a fu yn mynd i fod yn anodd. Ond mae'r gofid wedi dod â ni'n agosach at ein gilydd fel eglwys, ac mae'r anawsterau diweddar wedi mynd peth at wella hen friwiau'r gorffennol gan fod gennym elyn cyffredin, a dyfodol yr un for fregus.

Roedd gwasanaeth yn yr eglwys gadeiriol dydd Mercher cyn y Pasg yn esiampl dda o'r modd mae ein heglwys yn uno yn eu gofid dros y rhai a gollwyd i Covid. Cafwyd 'Gwasanaeth Gobaith a Goleuni', gweddïau dros y rhai a fu farw a'u teuluoedd, a chyfle i oleuo

cannwyll wrth y groes, nid yn unig i gofio ceraint ond i weddio y byddai gobaith yr Atgyfodiad yn dod â thangnefedd a goleuni i'n hannog ymlaen gyda Christ.

Fel cenedloedd Celtaidd, mae gennym yng Nghymru ac Iwerddon gyfle i gyhoeddi eto yn ein cymdeithas, a'n heglwys fod Goleuni Crist yn dal i'n gwahodd at fynwes y Tad.

Arfon Williams



Croes Gobaith yn y Gwasanaeth Gobaith a Goleuni

Gwyl y Sul Sbesial



Siaradwr Gwadd:

Huw Edwards

Cadeirydd:

Parchg Tom Evans

gyda Band y Priordy, aelodau ysgolion Sul Peniel a Siloam
Bydd gweithgarwch i'r ieuencid a'r plant



Bydd cyfle i brynu te, coffi, cacennau ac ati yn y caffi wedyn

**Croeso cynnes i bawb
Mynd i Undeb 150? Beth am aros ymlaen?**

Trefnir gan Annibynnwr Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

Yr Adran Gydenwadol

Wythnos Ffoaduriaid – dau ddewis

Bydd nifer o weithgareddau'n cael eu cynnal ar draws gwledydd Prydain i nodi [Wythnos Ffoaduriaid](#) yr wythnos hon (20–26 Mehefin). Ond, yn fwy na'r digwyddiadau eleni, fe fydd pobl yn mynd i'r afael â darparu mewn gwirionedd ar gyfer ffoaduriaid sydd wedi eu cartrefu yn ein plith o dan gynlluniau fisa llywodraeth y Deyrnas Unedig yng nghartrefi unigolion ac o dan gynllun croeso Llywodraeth Cymru.

Mae nifer helaeth o deuluoedd o Syria ac o Affganistan wedi eu cartrefu eisoes yng Nghymru. Erbyn hyn mae canolfannau croeso Llywodraeth Cymru ar gyfer ffoaduriaid o Wcráin yn llawn, a rhagor yn dal i gyrraedd dan nawdd unigolion sy'n agor eu cartrefi neu'n darparu llety ar eu cyfer.

Fe fydd awdurdodau lleol Cymru yn gweithio ar hyrwyddo grwpiau lleol i gynnig cefnogaeth i'r teuluoedd hyn, ac mae nifer o hybiau lleol wedi eu hagor mewn eglwysi a chaffis a siopau ledled Cymru. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i ffoaduriaid gyfarfod ei gilydd a thrafod eu hanghenion, yn ogystal â rhoi cefnogaeth i'r rhai sy'n eu lletya. Mae angen ystyried y myrdd o ofalon sydd gan y rhieni wrth iddyn nhw geisio integreiddio'r ffoaduriaid o dan eu gofal i mewn i'n systemau addysg, iechyd a lles. A oes cyfle i chi fod yn rhan o hyn yn eich ardal leol?

Tra bo cymaint o ewyllys da yn bodoli yma yng Nghymru tuag at deuluoedd o Wcráin a llefydd eraill sydd wedi colli cymaint, yr oedd llywodraeth Prydain yn parhau yr wythnos diwethaf yma â'r bwriad i anfon yr awyren gyntaf o geisiwyr lloches sydd heb gyrraedd Prydain dan y systemau swyddogol i ganolfan gadw yn Rwanda. Talwyd £500,000 wrth drefnu'r awyren ac yr oedd 130 o bobl i fod ar ei bwrdd. Ond, erbyn dydd Mawrth, 13 Mehefin, pan oedd hi i fod i hedfan, nid oedd ond saith i fod arni. Erbyn y noson honno, yr unfed awr ar ddeg megis, yr oedd Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi camu i'r adwy gan ddeddfu ar achos un ohonynt, a hynny wedyn yn agor y ffordd i archwilio achosion y gweddill hefyd, a



Llun: Hawlfraint UNHCR/OIM

Mawrth 2022: Yr UNHCR yn helpu ffoaduriaid sy'n dianc o Wcráin i symud o Moldova i fan diogel yn Romania.

neb am y tro yn gorfod wynebu'r daith i Rwanda.

Cafwyd straeon yn y wasg gan rai o Iran, Albania a Fietnam oedd i fod ar yr awyren gyntaf hon i Rwanda sy'n rhan o gynllun pum mlynedd. Fe sonion nhw i gyd am amgylchiadau eu ffoi a'u bod wedi gwneud hynny ar boen eu bywydau. Yr oedd lefel y pwysau a deimlent bellach oherwydd y bwriad i'w hanfon i Rwanda yn enfawr. Fe blediodd arglwyddi ysbrydol Tŷ'r Arglwyddi ar lywodraeth Prydain i ollwng y bwriadau hyn, ac mae myrdd o brotestiadau, deisebau a datganiadau wedi eu gwneud gan arweinwyr crefyddol a seciwlar.

Fe ymddengys bod gennym fel gwledydd yr ynsoedd hyn ddau ddewis, a'r ddau ddewis yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng y 'defaid a'r geifr' ar y dydd olaf, yn ôl Iesu: rhwng y rhai 'roddodd groeso i mi pan doeddwn i ddim yn nabod neb', a'r rhai na welodd yr angen ac na roddodd groeso na dim ymgeledd iddyn nhw (Mathew 25:31–46). Mae'r gerdd a gyfieithwyd yma'n amlygu'r ddwy agwedd hynny. Daliwn ninnau ati i bledio achos y dieithryn yn ein plith ac i wneud hynny am fod Iesu yn ei gariad drosom i gyd yn ein cymell i'r gwaith: 'beth bynnag wrthodoch chi ei wneud i helpu'r un lleiaf pwysig o'r rhain, gwrthodoch chi ei wneud i mi'.

Gol.

Ffoaduriaid

Dydyn nhw ddim angen ein help ni
Felly peidiwch â dweud wrtha i
Byddai'r wynebau dagreul, llawn gofid,
yn eiddo i ni
Petai bywyd wedi bod yn wahanol
Rydyn ni angen gweld pwy ydyn nhw
mewn gwirionedd
Yn cymryd mantais o bawb a phopeth
Yn cymryd popeth gân' nhw am ddim
Â bomiau o gwmpas eu gwregysau
A chyllyll miniog dan eu cotiau
Lladron, llofruddion,
Ysbeilwyr, twyllwyr
A dweud nad oes croeso a lloches yma
Eu hanfon yn ôl adref
Nid
Rhannu ein bwydydd blasus
Rhannu ein cartrefi moethus
Rhannu ein gwlad heddychlon
Mae angen ailfeddwl
Rhaid adeiladu clawdd enfawr i'w cadw
nhw allan
Dydi o ddim yn deg dweud
Dyma bobl 'run fath â chi a fi
Ar gyfer y rhai gafodd ei geni ynddi y mae
gwlad
Peidiwch â bod mor wirion â meddwl
Gellir edrych ar ein byd trwy lygaid
gwahanol

Beth am ddarllen y gerdd o'r gwaelod i'r top y tro hwn?

(Cyfieithiad Geraint Jones, Treffynnon, o 'Refugees', *Brian Bilston's Poetry Laboetry: From Ideation to Poemification*)

Eiddo Eglwysig – capeli, eglwysi a thai

Mae'n gyfnod prysur i'r sawl sy'n gyfrifol am eiddo eglwysig yng Nghymru. Crynhoir y materion cyfredol yma. Darperir gwybodaeth fwy manwl i swyddogion eiddo enwadol yn ôl yr angen. Dylai unrhyw un nad yw'n derbyn yr wybodaeth hon ac sy'n dymuno gwneud hynny gysylltu â Gethin Rhys ar gethin@cytun.cymru

- Wrth ymateb i ddadl awr o hyd yn y Senedd ar 23 Mawrth 2022 am ddyfodol adeiladau crefyddol yng Nghymru, cyhoeddodd Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon yn Llywodraeth Cymru, ei bwriad i adolygu'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Addoldai Hanesyddol yng Nghymru. Arweinir yr adolygiad hwn gan CADW a Fforwm Addoldai Hanesyddol Cymru. Cynrychiolir Cytûn a llawer o aelod enwadau ar y Fforwm, ynghyd ag Addoldai Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a mudiadau eraill priodol. Mae union ffurf yr adolygiad yn cael ei drafod ar hyn o bryd, a bydd Cytûn yn rhoi cyhoedduswydd i bob cyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth gyhoeddus bwysig hon.

- Yn Araith y Frenhines ym mis Mai 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i gyflwyno ac ymgynghori ar fil drafft i greu Dyletswydd Diogel, er gosod dyletswyddau ar berchnogion adeiladau sydd ar agor i'r cyhoedd i gymryd camau i gadw defnyddwyr yr adeilad yn ddiogel rhag ymosodiadau terfysgol. Ymatebodd Cytûn, Gwasanaeth Cyngori ar Ddeddfwriaeth yr Eglwysi (CLAS) a nifer o enwadau i'r ymchwiliad, pob un yn mynegi pryder ynghylch y beichiau cyfreithiol posibl y gellid eu gosod, yn enwedig y sawl sy'n rheoli adeiladau sydd yn nwylo cynulleidfaoedd bychain sy'n annhebygol o fod yn dargedau terfysgol. Mae Cytûn yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref, ei Grŵp Hyfforddiant Diogelwch Ffydd, i godi llais eglwysi Cymru.

- Agorodd rownd ddiweddaraf Cynllun Ariannu Diogelwch Gwarchodol Addoldai



Bethabara, Crughywell

© Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
<https://addoldai.cymru.cymru/gallery/>
Ateynhyrchwyd gyda chaniatâd



Bethel, Aberystwyth

© Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
<https://addoldai.cymru.cymru/gallery/>
Ateynhyrchwyd gyda chaniatâd

ar gyfer Cymru a Lloegr ar 19 Mai a bydd yn cau ar 14 Gorffennaf. Mae'n cynorthwyo gyda chostau offer a gosod mesurau diogelwch, a chostau cynnal a chadw am flwyddyn o'r dyddiad gosod.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn gohirio gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 tan Ragfyr 1 eleni. Mae'r papur briffio ar ein gwefan wedi'i ddiweddarau yn unol â hynny, ac i nodi bod testun Saesneg (ond nid testun Cymraeg) y Ddeddf ar legislation.gov.uk bellach wedi'i ddiweddarau. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i bron bob eiddo preswyl yng Nghymru a feddiannir gan rywun heblaw'r perchennog – nid yn unig tenantiaid sy'n talu, ond hefyd y rhai sy'n byw mewn cartref sy'n gysylltiedig â'u gwaith. Mae nifer o'n haelod enwadau wedi derbyn cyngor cyfreithiol am oblygiadau'r Ddeddf ar gyfer tai i glerigwyr mewn eiddo eglwysig; mae'r cyngor hwnnw wedi amrywio o enwad i enwad. Mater i bob enwad neu gorff ymddiriedolwyr priodol yw ceisio a gweithredu cyngor cyfreithiol sy'n berthnasol i'w sefyllfa.

- Mae Cytûn wedi derbyn gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau nad yw clerigion a gweithwyr eglwysig sy'n byw mewn eiddo eglwysig, gyda'r eglwys (yn hytrach na'r gweinidog) yn gyfrifol am dalu Treth y Cyngor, yn gymwys ar gyfer Cynllun Cymorth Costau Byw Llywodraeth Cymru, hyd yn oed os ydynt yn gyfrifol am dalu biliau ynni'r eiddo. Mae'r Llywodraeth yn awgrymu y dylai clerigion yn y sefyllfa honno wneud cais i'r Cynllun Cymorth Disgresiynol ar gyfer Costau Byw a weinyddir gan eu hawdurdod lleol.

(O [Fwletin Polisi Cytûn, Mehefin/Gorffennaf](#))

Gair gan Cytûn ar drothwy Wythnos Ffoaduriaid

Gan Aled Edwards, Prif Weithredwr

Eleni, cafwyd bendith aruthrol drwy law Aled a Delyth Davies yn Eisteddfod yr Urdd ym Mro Dinbych. Diolch o galon i'r ddau am ddarparu croeso mor odidog i blant Cymru.

Profiad rhyfeddol oedd cael croesawu ffoaduriaid o Afghanistan i'r maes ger Dinbych. Bellach, mae sawl teulu wedi cartrefu yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Yn rhyfeddol, fe ddywedodd un o'r plant wrth adael y maes taw ymweliad â'r Eisteddfod yr Urdd oedd profiad gorau ei bywyd. Ar eu liwt eu hunain, y diwrnod canlynol, daeth nifer o deuluoedd yn eu holau i'r maes gan gymaint y croeso a dderbyniwyd yno.

Ar drothwy Wythnos Ffoaduriaid mae'r eglwysi a'u partneriaid yn gweithio yn y modd mwyaf rhyfeddol i groesawu pobl fregus i'n plith.

Cafwyd ar ddeall yn y cyfamser na fydd Llywodraeth Cymru yn derbyn mwy o ffoaduriaid o Wcráin i'r canolfannau croeso sydd ganddynt ledled Cymru. Y mae'r canolfannau bron yn llawn a rhaid darparu'n briodol ar gyfer y rhai sydd eisoes ynddyn nhw. Fe lwyddodd Cymru a'r Alban i weithredu fel uwch noddwyr.

Roedd Cyfarfod Blynyddol Cytûn ddechrau Mehefin yn achlysur rhyfeddol o braf. Er nad ydym yn cyfarfod yn gorfforol, cafwyd bendith o sgwrsio â'n gilydd, croesawu aelodau newydd a chlywed am waith rhyfeddol yn lleol ar hyd a lled Cymru. Mae Cytûn yn gorff sy'n tyfu. Rhoddwyd croeso yn y cyfarfod i gymdeithas sy'n hyrwyddo mabwysiadu o bersbectif Cristnogol, a da o beth oedd derbyn enwad o gefndir y Brethren i'n cwmni yn ogystal, gan ehangu'r amrywiaeth Cristnogol sydd oddi mewn i Cytûn. Fe adroddodd Cymorth Cristnogol a Chyngor Ysgolion Sul Cymru am eu sefyllfa ar hyn o bryd a'u cynlluniau diweddaraf, a da oedd clywed hynny.

Ymddiheuriad

Yn yr adroddiad o weithgaredd Cymorth Cristnogol yng nghylch Llanbedr Pont Steffan yn rhifyn 68 o [Cenn@d](#), fe gafwyd dau lun ar waelod yr erthygl o dan y teitl, Bore Coffi Eglwysi Plwyf Pencarreg yng Nghanolfan Cwm-ann, 16 Mai. Fe ddygwyd i'n sylw mai lluniau ydynt o'r Brechwast Mawr yn Festri Capel Brondeifi, Llanbedr, 19 Mai, ac mai Mari McNeill a Tom Defis sydd yn yr ail lun yn mwynhau'r brechwast. Garw gennym am yr amryfusedd hwn. Gol.

O'r Beibl: 4

Cyfes ar gyfer astudiaeth
bersonol neu fel grŵp

Gair o Genesis

"Pwy ydw i? Beth yw fy hunaniaeth?"

Darllen: Genesis 1:26-31

Brawddegau sy'n cael eu hailadrodd yn gyson heddiw yw: "Bydd yn wir – yn driw – i ti dy hunan. Bydd yn pwy wyt ti go iawn."

Ond *pwy* ydw i? Pwy ydw i *go iawn*? Pwy sydd i ddweud a phwy sydd i ateb y fath gwestiynau?

Dau opsiwn

Yr opsiwn cyntaf yw ni ein hunain. Ai *ni* sydd i ateb y fath gwestiwn? Ai *ni* sydd i ddweud pwy ydym?

Mae hyn yn dibynnu, wrth gwrs, ar y ffordd yr awn ni ati i ateb cwestiwn arall, cwestiwn sydd yr un mor bwysig â'r rhai uchod: oes yna Dduw sydd wedi fy nghreu i? Os oes, ydy e'n gwybod yn well na fi pwy ydw i? Pwy ydw i *go iawn*?

A dyma ni'n dod at yr ail opsiwn: Duw. Ai *Duw* sydd i ateb y fath gwestiwn? Ai fe sydd i ddweud pwy ydym?

Tybed pa opsiwn sy'n gwneud y mwyaf o synnwyr?

Creadur a Chreawdwr

Gadewch i ni ystyried y peth yn ofalus. Os ydy hi'n wir fod yna Dduw sydd wedi fy nghreu i, yna mae hynny'n golygu na fyddwn i hyd yn oed yn bodoli heb ei fod e wedi ewyllysio fy nghreu. Heb ei fod e wedi fy nghreu, ni fyddwn yma i ofyn y fath gwestiynau dyrys! Mae fy holl emosiynau, fy mhrofiadau, fy syniadau a'm dewisiadau yn gallu cael eu teimlo, eu profi, eu meddwl a'u dewis heddiw gan fod Duw wedi penderfynu fy nghreu.

Mae hyn, wrth gwrs, yn golygu fy mod yn *gwbl* ddyledus i Dduw am bopeth, gan gynnwys fy hunaniaeth. Gan mai bod sydd wedi cael fy nghreu gan Dduw ydwyf, dyma yw fy hunaniaeth fwyaf sylfaenol. Creadur ydwyf ac mae creadur yn creadur oherwydd bod ganddo Greawdwr. Felly, nid rhywbeth sy'n cael ei ganfod na'i greu gennym yw ein hunaniaeth sylfaenol, ond rhywbeth sydd wedi cael ei *roi* i ni



gan Dduw yn rhinwedd y ffaith ein bod ni wedi ein creu ganddo. Am wirionedd ardderchog i'n rhyddhau o ddrwsch beichus ein calonnau! Nid oes yn rhaid i ni chwilio'n ddiflino am hunaniaeth; mae gennym hunaniaeth yn barod.

Gwerth a Gwaith

Beth felly mae'n ei olygu i fod yn fod dynol, yn ôl ein Creawdwr? Dyma un o'r cwestiynau cyntaf mae Duw yn eu hateb yn llyfr Genesis, lle dywedir: 'creodd Duw ddyn ar ei ddelw ei hun; ar ddelw Duw y creodd ef; yn wryw ac yn fenyw y creodd hwy' (Genesis 1:26).

Beth mae'n ei olygu fod y ddynoliaeth wedi'i chreu ar 'ddelw' Duw? Yng nghyfnod yr Hen Destament, roedd pob cenedl o amgylch Israel yn gosod 'delw' o'u duwiau yng nghanol eu temlau. Bwriad y delwau hyn oedd *cynrychioli* eu hamryw dduwiau.

Yn wahanol i gau dduwiau'r cenhedloedd, mae'r gwir Dduw yn gwneud rhywbeth tra gwahanol. Yn hytrach na gosod ei ddelw mewn teml o waith llaw, mae ef yn creu Adda ac Efa – ac felly'r ddynoliaeth gyfan – 'ar ei ddelw ei hun'. Hynny yw, mae'n creu pobl er mwyn ei gynrychioli ef ac er mwyn iddynt fwynhau perthynas unigryw ag ef.

Mae hyn yn golygu fod gan y ddynoliaeth *werth a gwaith* arbennig. Yn y lle cyntaf, mae bywyd dynol yn drawiadol o werthfawr. Yn wahanol i bob creadur byw arall ar y ddaear, y ddynoliaeth yn unig sydd wedi'i chreu ar lun a delw Duw. Gan fod pob un person – pwy bynnag ydyw a lle bynnag y bo – yn cario delw'r Creawdwr, mae pob bywyd dynol yn werthfawr dros ben. Hon,

wrth gwrs, yw'r athrawiaeth sy'n sylfaen gadarn i'r egwyddor fod pob bod dynol yn gydradd â'i gilydd.

Yn ogystal â'i gwerth, mae gan y ddynoliaeth ei gwaith. Gan fod cario delw Duw yn golygu cynrychioli Duw, mae gan y ddynoliaeth waith hollbwysig.

Wedi iddo greu Adda ac Efa, y peth cyntaf mae Duw yn ei wneud ydy siarad â nhw. Pam? Oherwydd nad oes ganddynt syniad pwy ydynt na pham eu bod yn bodoli! Ond mae Duw yn egluro wrthynt: "Byddwch ffrwythlon ac amlhewch, llanwch y ddaear a darostyngwch hi; llywodraethwch ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ac ar bopeth byw sy'n ymlusgo ar y ddaear" (Genesis 1:28).

Dyma yw gwaith y ddynoliaeth: cynrychioli Duw drwy lywodraethu'r byd ar ran Duw. Nid fel teyrn ystyfnig, ond fel stiwardiaid gofalus. Rydym i arwain a gofalu am greadigaeth Duw ar ei ran.

Wrth gwrs, mae'r ddynoliaeth wedi methu gwneud hyn: o Adda ac Efa yn Eden, hyd y dydd hwn. Yn hytrach na chynrychioli Duw, rydym wedi troi ein cefnau arno gan feddwl ein bod yn gallu byw hebdo. Yn hytrach na stiwardio'r greadigaeth, rydym wedi ei llarpio gan feddwl mai duwiau bach ydym. Dyna pam y daeth yr Arglwydd Iesu i'r byd fel yr 'Ail Adda' (1 Corinthiaid 15:45): er mwyn gwneud yr hyn yr ydym wedi methu ei wneud, er mwyn talu'r pris am yr hyn yr ydym wedi'i wneud.

Cymhwys

Sut mae cymhwysu'r gwirioneddau hyn i'n bywydau ni heddiw? Mae cydnabod mai creaduriaid ydym yn newid popeth. Mae'n golygu nad oes gennym ni'r gallu i ddeall dim yn llawn (ddim hyd yn oed ni ein hunain!) heb help Duw. Mae'r ffaith ein bod ni'n greaduriaid yn golygu fod yn rhaid i ni droi at ein Creawdwr i wybod beth yw ystyr a phwrpas ein bywydau – a beth yw ein hunaniaeth. Yn wir, ofer fyddai ceisio gwneud hynny hebdo.

Beth bynnag a wnawn yn ystod yr wythnos hon, beth am wneud y pethau hynny gan gofio mai creaduriaid Duw ydym? Beth am gymryd y cyfle i ddarllen penodau cyntaf Genesis eto er mwyn dysgu mwy am yr hunaniaeth ryfeddol mae Duw wedi ei rhoi i ni?

Gwilym Tudur

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 26 Mehefin, am 7.30yh (ailddarlliedir am 11:30yb y Sul canlynol)

Huw fydd Mlaen-y-coed, Sir Gâr, bro enedigol un o emynwyr enwocaf y ganrif ddiwethaf, un a gyfansoddodd rai o'n hemynau mwyaf poblogaidd, sef Howell Elvet Lewis, neu'n fwy cyfarwydd i ni, Elfed.

Dyma gopi o [gylchlythyr Dechrau Canu, Dechrau Canmol](#) am fisoedd Mehefin a Gorffennaf.

radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 26 Mehefin, am 7:30yb a 4.30yp

Cymanfa Eglwys Cymraeg Canol Llundain – rhan 1: Rob Nicholls yn cyflwyno detholiad o emynau o Gymanfa Eglwys Cymraeg Canol Llundain.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 26 Mehefin, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Densil Morgan, Llanbedr Pont Steffan

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Eisteddfod Powys ac abaty Glyn y Groes

gan Aled Lewis Evans, Wrecsam

Bydd Eisteddfod Powys, Eisteddfod hynaf Cymru yn dod i'r Stiwt yn Rhos ar 15 ac 16 Gorffennaf eleni. Mae rhai wedi bod yn holi, 'Pam fod Eisteddfod Powys yn dod i'r Rhos?' Roedd dathlu'r eisteddfod yn yr ardal yn hanfodol ar gyfer yr 200fed eisteddfod, gan i Syr Watcyn Williams Wyn noddi'r Eisteddfod Powys cyntaf yn Wrecsam yn 1820, yn hen Neuadd y Dref yn y Stryd Fawr. Oherwydd y Covid mae'n heisteddfod ni ddwy flynedd yn hwyr.



Powys Fadog

Ar un adeg roedd Rhos a Wrecsam ym Mhowys Fadog. I ddeall pam, rhaid mynd â chi i abaty Glyn y Groes ger Bwlch yr Oernant. Cafodd yr abaty ei enw o biler Eliseg neu'r groes sydd ag arysgrif Ladin arni yn coffáu teulu llywodraethol Powys Fadog yn ystod y seithfed a'r nawfed ganrif. Mae'r abaty ei hun wedi ei adeiladu ar ffurf croes hefyd, oherwydd pwysigrwydd y Groes gerllaw. Cyngen ap Cadell brenin Powys a'i cododd i anrhydeddu ei hen daid Eliseg o gastell Dinas Bran. Cred rhai mai'r un Eliseg sydd yn enw creigiau'r ardal Eglwyseg. Fe ryddhaodd Eliseg, Bowys o afael y Saeson. At ei gilydd roedd yr abatai yn cefnogi'r tywysogion Cymreig yn erbyn coron Lloegr. Er mai'r Normaniaid a ddaeth â chrefydd Ewropeaidd ei naws efo nhw â'r Sistersiaid, fe fyddant yn gadarnleoedd i'r beirdd a'r llawysgrifau Cymraeg. Roedd hyn yn wir am Abaty Glyn y Groes a sefydlwyd yn wreiddiol gan Madog ap Gruffudd Maelor yn 1201, tywysog Gogledd Powys. Fe fu'n ganolfan a phencadlys Powys Fadog am gyfnod. Urdd y Mynaich Gwynion a ddaeth yma, rhai yn gysylltiedig ag Abaty Ystrad Marchell ger y Trallwng. Eto i gyd rhaid cofio fod yr abaty yn fan cyfforddus hefyd ac yn ddatganiad o bŵer yr hen Bowys Fadog, o'r Tanat hyd aber y Ddyfrdwy. Yn yr hundy, lle y cynigiwyd lletygarwch i'r mynachod a'u gwsteion ar gyfnod diweddarach, fe welwn fedd Madog ei hun ymhlith olion gorau Cymru o'r bedwaredd ganrif ar ddeg.

Glyn y Groes

Arferai abaty Glyn y Groes glymu'r ardal,

a rywsut mae o'n dal i wneud hynny heddiw. Boed hynny wrth fwyta yn y Felin Yd a berthynai'n wreiddiol i'r mynaich, neu syllu ar ffenestri Plas Newydd sydd efo darnau o hen wydrau caeau Glyn y Groes wedi'u hymgorffori ynddynt. Fe welwn sut y mae'r abaty yn taflu ei we dros yr ardal. Mae'n enghraifft ymhlith y gorau o fynachlogydd canoloesol, yn arbennig yr eglwys, a rhai rhannau o dan do. Fuodd yna fyth fwy na thri ar ddeg o fynachod yma. O'r ddeuddegfed ganrif ymlaen y Sistersiaid oedd yr urdd fwyaf yng Nghymru, a bu eu safleoedd diarffordd yn atyniadol byth ers hynny. Y Sistersiaid oedd y mynaich a ddilynai ddehongliad mwy caeth o reol Bened. Mae hyd yn oed y pysgodlyn gwreiddiol canoloesol yn dal yn llawn dŵr islaw llethrau coed Hyrddyn, ac mae ffenestr wreiddiol o'r abaty yn eglwys Llantysilio gerllaw, yn dyddio o'r bymthegfed ganrif.



Hafan i'r beirdd

Fe ganodd Guto'r Glyn glodydd i'r gofal a gafodd yma yn ei henaint a'i ddallineb. Bu farw Guto'r Glyn yma tua 1493, wedi derbyn lletygarwch dihafal yr Abad Siôn a'r Abad Dafydd.

Clera Môn, cael aur a medd,
gynt a gawn, Gwent a Gwynedd;
Clera'n nes, cael aur a wnafl,
yma'n Iâl, am na welaf.

Felly hefyd Iolo Goch, bardd a thirfeddiannwr o Lechryd, Llanefydd. Roedd Iolo Goch wedi clodfori Owain Glyndŵr y dyn, a'i goeso diarhebol yn Sycharth. Cafodd hyn gryn sylw gan George Borrow yn *Wild Wales*. Ar un adeg felly roedd dylanwad Abaty Glyn y Groes yn cyrraedd cyn belled â Wrecsam. Yn 1202 trosglwyddodd Madog ap Gruffudd Maelor, arglwydd Castell Dinas Brân, ran o'i dir yn Wrecsam yn rhodd i abad Glyn y Groes. Galwyd y rhan yma yn Wrecsam Abbot o'i gymharu â Wrecsam Regis ac mae'r enwau hyn yn fyw hyd heddiw.

Llangollen

Ar ddydd Mercher Eisteddfod Llangollen pan oedd y tywydd yn caniatáu arferid cynnal gwasanaeth yn yr abaty – un o uchafbwyntiau'r wythnos oedd y gwasanaeth eciwmenaid ac amlgenedl yn abaty Glyn y Groes. Ceid bws rhadlon parablus yn barod i fynd â'r pererinion o ganol tref Llangollen i'r abaty. Wrth i ni edrych ymlaen at ddychweliad pob math o Eisteddfodau eleni – beth am fynd draw unwaith eto i abaty Glyn y Groes i werthfawrogi'r holl hanes sydd yn ein bro, ac ymweld â'r Stiwt ar gyfer parhad yr hanes hwnnw a chefnogi Eisteddfod Powys Rhos a'r Cylch 2022?

Ceir yr erthygl wreiddiol yn Shalôm cylchgrawn Capel y Groes ac Ebeneser, Wrecsam, Rhif 491 Mai-Mehefin 2022

Tystiolaeth

Tra oeddwn yn byw yng Nghaernarfon, flynyddoedd yn ôl bûm yn efengylu ac yno yr oedd pawb yn fy adnabod. Roedd cangen o elusen leol yn ceisio codi arian er mwyn prynu cerbyd i gludo pobl yma ac acw. Awgrymodd gŵr ifanc y byddai'n fodlon mynd o Land's End i John o'Groats, yn yr Alban ar ei feic. Wrth gwrs, er diogelwch roedd rhaid cael cerbyd a dau yrrwr i'w ddilyn. A dyma fi yn cynnig helpu.

Felly cychwynwyd ar y fenter gan fynd o Gaernarfon i Land's End a chludo'r gŵr a'i feic yno. Yna aeth i gyfeiriad yr Alban a ninnau yn ei ddilyn pob dydd yn y cerbyd a gwersylla dros nos mewn gwahanol fannau. Dechreuodd y daith ar fore Llun ac erbyn dydd Sadwrn roeddem wedi cyrraedd Birmingham. Ond oedd gennyf gyhoeddiad i bregethu mewn capel gerllaw Dolgellau ar y Sul.



Aeth y gyrrwr car a'r gŵr a'i feic ymlaen ar eu taith ac fe ffawdheglais i fy nghyhoeddiad gan gyrraedd mewn pryd. Wedi darhod yno ffawdheglais y tro hwn i gyfeiriad yr Alban. Yn y cyfnod

parhad ar y dudalen nesaf

Barn Annibynnol

Adnabod Wyneb

Dwi yn hoff iawn o ddyfeisiadau (gadgets) mae gen i lawer ormod ohonynt yn hel llwch, rhai ar gyfer y gegin, y car a'r ardd. Dwi hefyd wrth fy modd gyda thechnoleg rhai ohonoch yn gwybod yn ein tŷ ni mae fi ydi'r person 'go to' lle mae technoleg yn y cwestiwn. Mae'r un pleser yn ymestyn i'r ffôn clyfar.

Dw i yn cofio y ffôn symudol cyntaf ddaeth i'm meddiant un mawr trwsgr a'r cyswllt a gweddill y byd yn un hynod o fregus dim ond mewn ambell i fan yn yr hen Sir Feirionnydd oedd modd cael signal. Mae'r byd technoleg wedi datblygu ar y fath raddfa mae bron yn anghredadwy. Bellach, iPhone sydd gen i bellach ers rhai blynyddoedd sy'n rheolaidd yn cael ei uwchraddio 13pro max y diweddaraf!

Mae'r ffôn yn adnabod fy wyneb, wrth ei godi ac edrych arno mae yn datgloi ac yn gadael i mi ddarllen e-byst, dal i fyny gyda'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, siopa, myfyrio a darllen fy Meibl.



Sul ni, fel rhan fwyaf o ysgolion Sul gogledd Cymru! Un fach ofnus oeddwn i ddim yn hoffi reidiau cyflym, dŵr nag uchder, felly fy mhrofiad yn un cyfunedig braidd. Ond mi oeddwn i wrth fy modd yn mynd i'r 'Hall of Mirrors'. Mi fyddwn yn cerdded o gwmpas gyda fy nhad oedd fel cawr chwe throedfedd a mwy yno, mewn ambell i ddrych, wedyn y ddau ohonom mewn un arall fel rholia bach crwn doniol.

'Yn awr, gweld mewn drych yr ydym, a hynny'n aneglur; ond yna cawn weld wyneb yn wyneb. Yn awr, anghyflawn yw fy ngwybod; ond yna, caf adnabod fel y cefais innau fy adnabod,' 1 Cor. 13: 12.

Dyma'r adnod fydd yn mynd a fi 'nôl i Rhyl yn llaw fy nhad – heb adnabod wyneb Iesu Grist a'i dyma sut ydan ni yn ei weld, fel rhyw ffigwr aneglur, gwyn wrth gwrs, gwallt hir a barf ond o ddod i'w adnabod yn bersonol fel ffrind a Gwaredwr nid dyma'r Iesu da ni yn ei weld?

Cofio dy wyneb

Ychydig o gyfeiriadau sydd yna yn yr efengylau at wyneb Iesu, Cleopas yn ei adnabod ar doriad y bara grymoedd natur yn adnabod ei lais a Tomos o ôl yr hoelion yn ddwylo. Tybed beth oedd y disgyblion yn weld yn wyneb Iesu? A oedd yna dristwch, oedd yno lawenydd oedd y cariad tuag atynt yn ei lygaid oedd yn wyneb graffig a bywiog wrth ddeud stori, yn wyneb llawn ofn a gorfoledd ar y groes, yn wyneb hardd a thawel yn dilyn ei atgyfodiad a'i gyfarfyddiadau gyda'i gyfeillion? Gallwn ond tybio.

Mae'n bosib ein bod ni yn eiddigeddus o'r criw yma o bobl wedi bod efo Iesu Grist, yn treulio amser yn ei gwmni yn mynd i lan y môr, i briodas, i wleddoedd, i gydaddoli, i wrando ar ei eiriau. Nid oedd hyn dal ddim yn ddigon, roeddynt eisiau gweld Duw, gweld ei wyneb o – a dyma Iesu yn dweud wrth Philip, 'dw i wedi bod gyda chi i gyd ers cymaint o amser! Wyt ti'n dal ddim yn fy nabod i, Philip? Mae pwy bynnag sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad ...'

Ydym ni wedi gweld wyneb Duw os chwiliwn? Wel do siŵr. Mae wyneb Iesu i weld yn wyneb y gwerthwr *Big Issue*, yn yr anghenus, y claf, y ffoadur, y dioddefwr, yr unig, y plentyn llawen diniwed, y fam newydd, y cefnogwr brwd, gallwn gyd-lawenhau a thristau gydag Iesu drwy weld ei wyneb yn eraill beth bynnag eu hangen a'u hamgylchiadau. Gallwn weld wyneb Iesu drosom ni ein hunain:

Rhown ein moliant uwch ei breseb; mae'r gogoniant, ar ei wyneb, wyneb Iesu, wyneb Iesu, Brenin nef.

Elen Vaughan

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Tystiolaeth – parhad

hwnnw doedd dim ffônau symudol. Safais ar ochr y ffordd rhyw ychydig filltiroedd o John o' Groats ac o fewn ychydig daeth y beiciwr ar cerbyd heibio, wedi cwblhau'r daith. Roedd y peth yn wyrth ryfeddol. Aeth pawb ohonom yn ôl i Gaernarfon.

Rhyfeddol beth

Ychydig wythnosau wedi i mi symud i fy ngofalaeth yn y de fe dderbynais lythyr. Roedd y beiciwr wedi ei ddychryn gan fy ffydd i a'r wyrth a ddigwyddodd. Dyma'r llythyr i chwi ei ddarllen. Wel, dyma dystiolaeth yn wir ar gyfer *Y Tyst*, i'ch calonogi chwi. Gall pob Cristion wneud yr un peth ac a wneuthum i.

'Cefais dy gyfeiriad gan dy chwaer Betty, roeddwn eisiau rhannu newyddion gyda thi. Rwyf wedi dod yn Gristion ym mis Ionawr ac wedi fy ngeni o'r newydd. Mae wedi newid fy mywyd er gwell. Y mae atgofion wedi llifo i'm cof, yn enwedig y daith o Land's End i John o' Groats. Rwy'n defnyddio fel esiampl dy ffydd gref pan adewaist ti hanner ffordd trwy'r wlad i bregethu yn rhywle ac yna taro ar Irene yn Wick. Roedd yr Arglwydd yn edrych ar ôl y ddau ohonom yr wythnos honno, Bill. Dywedaf y stori honno yn aml wrth gyd Gristnogion. Fe fonaf dâp atat yn fuan yn dweud sut y deuthum yn Gristion. Yn gywir, Allan.'

Wena Parry

Wyneb yn wyneb

Dwi'n siŵr i gymaint ohonom, er mor wych ydi technoleg, ac yn sicr wedi galluogi ni yn ystod cyfnodau clo i gynnal oedfaon a chyfarfodydd, dydi gweld wyneb rhywun mewn ffrâm hirsgwar wydr ddim cweit yr un fath. Mae bod yn ôl gyda'n gilydd yn ddiogel yn fendith ychwanegol un o bosib ein bod yn ei gwerthfawrogi ychydig yn fwy bellach. Mae'r wyneb yn adrodd stori amdanom yn dydi? O edrych ar wyneb person mae gennyh syniad sut mae'n yn teimlo o gofio wrth gwrs mae rhai yn arbenigwyr ar guddio tu ôl y masg.

Mewn drych

Pan oeddwn i'n blentyn Rhyl a 'Marine Lake' ran amlaf oedd cyrchfan trip ysgol

Capel yr Erw

Cynhelir cyfarfod arbennig ar 3 Gorffennaf am 2 o'r gloch dan arweiniad Mrs Elenid Jones o Gaerdydd, cyn swyddog Cymorth Cristnogol yng Nghymru. Mae'n ferch i un o feibion y capel sef y diweddar Dr Matthew Williams ac yn nith i'r Athro Griffith John Williams. Mae'n mynd i roi hanes y ddau frawd a'u rhieni, eu magwraeth yng Nghellan a'u cysylltiad â Chapel yr Erw. Gwnaeth y ddau gyfraniad aruthrol i Gymru ac fel dau gyn ddisgybl ysgol Tregaron, mae'n gymwys i sôn amdanynt ym mlwyddyn prifwyl Ceredigion. Croeso cynnes i bawb.

Eirios Jones
(Ysgrifennydd)

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Rhaglen Y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin 2022

Oni nodir yn wahanol cynhelir y cyfarfodydd yng Nghanolfan Halliwell,
ar gampws Coleg Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin SA31 3EP



DYDD IAU, 7 Gorffennaf

- 1.30 CYNHADLEDD 1**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn: Parchg Gethin Rhys
- 2.00** Ymddiheuriadau am absenoldeb
Adroddiad Undeb Rhithiol 2021 (y *Llyfr Gwyrdd*)
Croesawu/ethol Trysorydd newydd yr Undeb
Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2023
i Gyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint
Eglwysi Dementia-gyfeillgar
Economi Bywyd a Newid Hinsawdd
- 3.00** Te a chacen a chroeso
- 4.00–5.00** Cyfarfod Heddwch
- 5.30** Swper
- 7.30 CYFLWYNIAD** gan aelodau a chyfeillion eglwysi
Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin.

DYDD SADWRN, 9 Gorffennaf

- 9.30** Defosiwn: Parchg Tom Defis, Cadeirydd y Pwyllgor
Leol
- 9.40** Dathliad yr Undeb dan ofal Alun Lenny
- 11.00** Te/coffi
- 11.30 OEDFA'R LLYWYDD**
Llywyddir gan Mr Dafydd Roberts,
Cadeirydd y Cyngor
Coffáu'r rhai a fu farw
Gweddi: Parchg Rhodri Glyn Thomas
Dymuno'n dda i weinidogion a ymddeolodd
Croesawu gweinidogion newydd
Cydnabod gwasanaeth Trysorydd yr Undeb
- ANERCHIAD Y LLYWYDD:**
Parchg Beti-Wyn James
- 1.00** Cinio ac ymadael

DYDD GWENER, 8 Gorffennaf

- 9.30 CYNHADLEDD 2**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn: Parchg Gethin Rhys
- 10.00** Adroddiad y Trysorydd
Adroddiad ar Fuddsoddion yr Undeb
Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol
Etholiadau:
- 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd
 - hyd at 3 i'r Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd
 - cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn
- 11.00** Te/coffi
- 11.30** Y Drysorfa Gynorthwyol
Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau
Y Tyst
- 1.00** Cinio

Dangosir cyflwyniadau Cwpan Denman yn ystod y cynadleddau

- 2.00 CYNHADLEDD 3**
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol
Penderfyniadau
Derbyn gweddill cofnodion y *Llyfr Glas*
Penderfyniadau
UFA
- 3.30** Te/coffi
- 4.00–5.00 'Yr olaf o win yr haf: Undeb yr Annibynwyr
Cymraeg, 1972-2022'**
Darlith gan Parchg Ddr Geraint Tudur
- 5.30** Swper
- 7.30 OEDFA O FAWL** Capel Heol Awst, Caerfyrddin
Llywydd: Parchg Beti-Wyn James
Pregeth: Parchg Iwan Llewelyn Jones